cymdeithas y beibl
dwyn y beibl i glyw y bobl

Y LLAIS – PREGETH i Gyflwyno Rhaglen Ffydd Drwy Glywed

DARLLENIAD - Actau 2: 1–12 – Y Cyfle Mawr

Daeth gŵr ifanc at Watcyn James, Swyddog Cymdeithas y Beibl yng Nghymru Cymru, yn yr Eisteddfod Genedlaethol gan ddweud wrtho'n bendant nad oedd ganddo unrhyw ddiddordeb mewn crefydd.

Roedd yn credu bod crefydd ffurfiol yr eglwys heddiw ond yn gysgod o fywyd byrlymus yr Eglwys fore yr oedd wedi darllen amdano yn y Beibl. Nid oedd ganddo ddiddordeb mewn crefydd gyfundrefnol – ond roedd yn dilyn ymarferion myfyrdod y Dwyrain bob dydd; ac roedd ganddo ddiddordeb mawr yn Iesu Grist.

Mae'n amlwg bod yn y Gorllewin ymchwil ysbrydol nad ydym wedi ei weld ers cenedlaethau.

Ar yr un pryd, rydym yn ymwybodol o'r dirywiad sydd ym mywyd cynulleidfaoedd led led Cymru. Mae plant, pobl ifanc ac oedolion i bob golwg wedi troi eu cefnau ar grefydd gyfundrefnol.

Mae'n sioc i lawer sy'n mynychu capeli ac eglwysi Cymru nad yw pobl sy'n chwilio am oleuni ysbrydol yn ystyried bod yr Eglwys yn berthnasol i'w hymchwil!

Mewn llawer o enwadau traddodiadol mae yna deimlad o anobaith; mae'n ymddangos na all dim atal y dirywiad hwn. Mae gwybodaeth aelodau'r Eglwys am gynnwys y Beibl wedi lleihau, ynghyd â'u hyder y gall ei neges drawsnewid bywydau unigolion a chymunedau.

Mae llawer yn ymgilio i'w traddodiadau, heb wybod sut i ymateb i'r her sy'n ein hwynebu. Dyma sut gall gynllun a ddatblygwyd gan Cymdeithas y Beibl helpu.

Am y tro cyntaf erioed, mae *Ffydd Drwy Glywed* bellach ar gael yn y Gymraeg. Mae'r rhaglen hon, sy'n defnyddio recordiad sain *Y Llais,* yn gwahodd unigolion i ymrwymo i wrando ar y Testament Newydd yn ddyddiol am gyfnod o naill ai pedwar deg neu chwedeg diwrnod. **A dyma beth rwy am eich gwahodd chi ei wneud: i ymrwymo i wrando ar y Testament Newydd am gyfnod o 40 neu 60 diwrnod.** Rwy'n hyderus y bydd gwrando ar y Testament Newydd gyda'n gilydd yn adnewyddu **ein** hyder yn y Beibl; bydd pob un ohonoch yn synnu at yr effaith a gaiff.

Ond beth am ein diwylliant?

Sut gall cymdeithas ôl-Gristnogol ddeall ei threftadaeth, ei hanes a'i gwerthoedd - fel y mynegir trwy lenyddiaeth, barddoniaeth a chelfyddyd - heb wybodaeth o'r Beibl? Mae deall rôl y Beibl, a'i gyfraniad i lunio ein hunaniaeth ac i ddatblygiad ein hiaith,

yn hanfodol. Heb y wybodaeth yma byddwn yn gynyddol ymbellhau oddi wrth ein gwreiddiau.

Gall *Ffydd Drwy Glywed* ein helpu i bontio'r bwlch hwn hefyd.

Mae'r dyhead sydd yng nghalonnau gymaint o bobl am gael clywed Gair Duw, heb ei gyfryngu gan gyfyngiadau crefydda ffurfiol, yn rhoi cyfle i eglwysi ledled Cymru.

Ond pam ddylwn ni fod yn un o "wrandawyr a gweithredwyr" y Gair?

Credaf y gall hanes dechrau'r eglwys yr Eglwys yn Llyfr yr Actau ein helpu i ateb y cwestiwn sylfaenol a phwysig hwn.

1. Cyffro Torf

Dywed Actau 2. 5–8 wrthym:

Yr oedd yn preswylio yn Jerwsalem Iddewon, pobl dduwiol o bob cenedl dan y nef; ac wrth glywed y sŵn hwn fe ymgasglodd tyrfa ohonynt, ac yr oeddent wedi drysu'n lân am fod pob un ohonynt yn eu clywed hwy yn siarad yn ei iaith ei hun. Yr oeddent yn synnu a rhyfeddu, a meddent, "Onid Galileaid yw'r rhain oll sy'n llefaru? A sut yr ydym ni yn eu clywed bob un ohonom yn ei iaith ei hun, iaith ei fam? (BCN)

Wrth i ni wrando ar y disgrifiad hynod hwn, y peth cyntaf a sylwn arno yw'r cyffro. Nawr, ble bynnag mae torf, bydd cyffro'n debygol. Dyna ran o'r hwyl o fod yn yr Eisteddfod, yr Ŵyl Gerdd Dant, sioe amaethyddol leol, Cymanfa Ganu, heb son am gyffro bod mewn gêm ryngwladol yn Stadiwm y Mileniwm!

Ond roedd llawer mwy i gyffroi'r dorf ar ddydd geni'r Eglwys, ar Ddydd y Pentecost. Medrent glywed popeth a oedd yn cael ei ddweud wedi'i ynganu yn eu hiaith eu hunain. "Synnu" a "rhyfeddu" yw'r geiriau a ddefnyddir i ddisgrifio eu hymateb.

Ond roedd elfen bwysicach yn eu cyffro – roeddent yn medru gwrando yn eu hiaith eu hunain am yr holl bethau hynod yr oedd Duw wedi bod yn ei wneud.

Cretiaid ac Arabiaid, yr ydym yn eu clywed hwy yn llefaru yn ein hieithoedd ni am fawrion weithredoedd Duw. 2:11

Nawr medrwn ninnau rannu profiad tebyg. Am y tro cyntaf medrwn oll **glywed** stori'r holl bethau y cychwynnodd Iesu ei wneud a'i ddweud (Actau 1.1) yn ein hiaith ein hunain.

Wrth gwrs, rydym wedi medru darllen y Beibl yn y Gymraeg am fwy na phedwar can mlynedd, ond mae Cymdeithas y Beibl bellach wedi cyflwyno'r Testament Newydd (allan o'r Beibl Cymraeg Newydd Argraffiad Diwygiedig) fel profiad sain – dyma'n cyfle mawr.

Mae'n "syndod" sut yr oedd dilynwyr Iesu Crist, ynghyd â'r rhai nad oeddynt ar y pryd yn credu ynddo, wedi eu denu at y cyhoeddi am "fawrion weithredoedd Duw", ar ddydd y Pentecost,

Mae defnyddio recordiad sain *Y Llais* yn rhoi cyfle i ni, fel dilynwyr modern Iesu, i wahodd y rheiny sydd hefyd yn rhan o'r chwilio ysbrydol a grybwyllwyd yn

gynharach gennym, i glywed yr adrodd am y pethau rhyfeddol y mae Duw wedi eu gwneud.

Mewn ysgolion ledled Cymru, ac ymhlith dysgwyr Cymraeg, bydd pobl sy'n defnyddio'r *Llais* yn clywed, yn annisgwyl efallai, yr un newyddion hynod. Os cymerwn y cyfle i wrando ar Y Llais byddwn yn medru helpu eraill i glywed y gair. Wedi'r cyfan daw ffydd... drwy glywed (Rhufeiniaid 10.17)

Gyda'r gwrando hwn daw cyfle i bob un ohonom glywed o'r newydd, a chael ein syfrdanu o'r newydd, at yr hyn y mae Duw wedi ei wneud yn y byd.

2. Gwrando grymus

Mae yna rywbeth grymus ynglŷn â gwrando ar y pethau hynod y mae Duw wedi eu gwneud yn cael eu hadrodd.

Wrth gwrs, mae'n fraint fawr medru darllen ac astudio adnodau'r Beibl bob dydd; mae'n wych cael darnau o'r Ysgrythur wedi eu hesbonio, eu dehongli a'u cymhwyso bob wythnos.

Ond mae yna rywbeth sydd yr un mor gyffrous mewn clywed darnau hirach o'r Testament Newydd a sylweddoli ehangder y pethau rhyfeddol y mae Duw wedi eu gwneud trwy Grist. Gall hon fod yn ffordd hollbwysig o gynnal ein ffydd a'n hysgogi i rannu ein ffydd gydag eraill.

Gall llawer o bobl ar draws y byd dystio eu bod, wrth wrando ar yr hanes rhyfeddol hwn yn eu hiaith eu hunain, wedi dysgu pethau newydd o'r Beibl, hyd yn oed pan roeddynt eisoes yn gyfarwydd ag o.

Ac mae wedi galluogi'r rhai oedd ag ychydig o wybodaeth i glywed am ryfeddodau ffyrdd Duw. Mae llawer wedi canfod eu bod wedi cyfarfod Duw o'r newydd, yn union fel y bobl grefyddol hynny a gyfarfu â Duw ar ddiwrnod y Pentecost.

Ble bynnag yr ydym ar daith ein ffydd, os ydym yn cychwyn ar ein cwest ysbrydol neu'n bobl sy'n gyfarwydd â'r Testament Newydd, medrwn, dros gyfnod 40 neu 60 diwrnod, gyfarfod gyda Duw mewn ffordd hynod.

Mae'r Efengylau'n adrodd yr un stori wych am weithredoedd Duw yng Nghrist, ond mae pob awdur yn cyflwyno ei bersbectif personol ei hun. Gall gwrando ar yr hanesion ddeffro'n hysbryd; a bydd y "gweld" mor gyfoethog ag edrych ar liwiau'r enfys!

Wrth i ni ddilyn twf cyflym yr Eglwys gynnar a chlywed am y peryglon, byddwn yn medru profi ac ymdeimlo o'r newydd â grym yr Ysbryd Glân. Ef oedd yn anadlu ar ei eglwys ac yn ei chymell i weithredu i dystiolaethu a rhannu ei ffydd mewn gair a gweithred.

Mae gwrando ar Lythyrau'r Testament Newydd fel clustfeinio ar her ac ymdrech yr Eglwys fore. Ac y mae gwrando ar y llythyrau hynny'n ein hannog a'n harwain ni heddiw.

Yn olaf, bydd gogoniant a buddugoliaeth Llyfr y Datguddiad yn tanio ein dychymyg a chynnau gobaith bywiol ar gyfer ein byd.

3. Llawer o leisiau

Un o'r pethau a ddenodd sylw'r dorf ar fore'r Pentecost cyntaf hwnnw oedd eu bod yn clywed llawer o leisiau gwahanol yn son am weithredoedd Duw. Roedd rhai, fel Pedr ac Ioan, yn gyfarwyddyd i ni. Roedd eraill a oedd yn ddilynwyr Iesu ar y diwrnod cyntaf hwnnw yn Gristnogion cyffredin, dienw.

Mae ein recordiad ninnau hefyd yn cynnwys llawer o leisiau. Mae rhai, fel Richard Elfyn, Rhys Parry Jones, Lisabeth Miles ac Alun Evans yn gyfarwydd i ni yng Nghymru, ond clywir lleisiau nifer o bobl lai adnabyddus eraill; pobl sydd am ddilyn Iesu- yn union fel chi a mi.

Felly, o'r cychwyn cyntaf roedd tri pheth yn hanfodol i'r profiad o fod yn "eglwys". Roedd bod yn rhan o dorf, roedd yna neges ryfeddol - stori Duw yn gweithio trwy Iesu - ac roedd y cyffro o glywed yr hanes yn eu hiaith eu hunain.

Ond roedd yna ffactorau eraill hefyd oedd yn tanio'u cyffro. Roedd y credinwyr wedi bod yn gweddïo, ac roedd yr Ysbryd Glân ar waith yn rymus yn eu plith. Yr un Ysbryd Glân sydd yn ein galluogi ninnau i ymateb a derbyn yr hyn a glywn fel ei fod yn dod yn air byw gan Dduw i'n calonnau.

Hoffwn eich gwahodd chi i gyd, fel unigolion ac fel cynulleidfa, i ymrwymo i ddilyn rhaglen *Ffydd Drwy Glywed*. Wrth i ni wrando ar y Testament Newydd, fe fydd yna bobl yn gweddïo trosom. Rhan o ymrwymiad Cymdeithas y Beibl yw gweddïo dros rai sy'n ymrwymo i wrando ar y neges. Byddant yn gweddïo ein bod:

- Yn tyfu yn ein dealltwriaeth o Iesu
- Yn tyfu yn ein hyder yn stori'r Beibl
- Yn tyfu yn ein hymwybyddiaeth o bresenoldeb Duw yn ein bywydau
- Yn tyfu gyda'n gilydd fel pobl Duw
- Yn tyfu yn ein gallu i rannu ein ffydd gyda'n gilydd a thu hwnt i'r eglwys.

Peidiwn ag anghofio'r gŵr ifanc yn yr Eisteddfod oedd yn awyddus i glywed y gwirionedd am Iesu. Fe allem ni helpu ef a rhai tebyg i gael eu bodloni.

Casgliad

Mewn cymaint o ffyrdd, mae stori'r Testament Newydd yn stori sydd nid yn unig wedi llunio ein heglwysi ond y Gymru yr ydym yn ei charu - ei diwylliant, ei llenyddiaeth a'i chaneuon.

Nawr mae gennym y cyfle unigryw hwn i wrando ar y llais hwn unwaith eto; po fwyaf ohonom sy'n ymuno, y cyfoethoca' fydd y profiad. Fe allwn ni brofi gyda "thyrfa" leol, "fawrion weithredoedd Duw." Yn wir, mae gweddi Paul, yn Effesiaid 3.16-19, yn cadarnhau hyn: Mae'n
" gweddïo ar iddo ganiatáu i chwi, yn ôl cyfoeth ei ogoniant, gryfder a nerth mewnol trwy'r Ysbryd, ac ar i Grist breswylio yn eich calonnau drwy ffydd. Boed i chwi, sydd â chariad yn wreiddyn a sylfaen eich bywyd, gael eich galluogi i amgyffred ynghyd â'r holl saint beth yw lled a hyd ac uchder a dyfnder cariad Crist, a gwybod am y cariad hwnnw, er ei fod uwchlaw gwybodaeth. Felly dygir chwi i gyflawnder, hyd at holl gyflawnder Duw.

Felly rwy eisiau annog pawb i ymuno gyda mi, a chymryd y cyfle hwn i wrando ar y Testament Newydd dros gyfnod 40 neu 60 diwrnod.

Gweithredu

Os gwelwch yn dda, a wnewch chi edrych ar y cerdyn ymrwymiad oedd ar eich seddau heddiw wrth i chi gyrraedd. A wnewch chi gymryd ennyd i'w ddarllen?

[Saib]

Nodwch eich enw a'ch rhif ffôn a phenderfynu pa fersiwn yr hoffech ei archebu – casetiau sain Cymraeg neu gryno ddisgiau, (neu un o'r opsiynau Saesneg) . Ticiwch y blychau priodol.

Mae rhan isaf y cerdyn i chi er mwyn i chi ei gadw. Nodwch eich enw a'i lofnodi a'i ddyddio. Mae hwn er eich defnydd chi yn unig, i'ch atgoffa o'ch ymrwymiad i wrando gyda'r eglwys.

Nawr, rhwygwch ar hyd y llinell doredig a rhoi'r darn top i'r stiwardiaid fydd yn eu casglu.

ADNODDAU YCHWANEGOL: DEUNYDDIAU ar gyfer Astudiaethau Beiblaidd (Cymerwyd o bregeth gan y Parch. Dr Tom Houston)

[BLWCH 1]

ASTUDIAETH BEIBL 1

Dywed Paul wrthym yn 2 Timotheus 3.15–17 bod **pedwar swyddogaeth i'r Beibl. Sef**:

Ein harwain at Grist ac at iachawdwriaeth	a 15
Dysgu'r gwirionedd i ni a chywiro syniadau anghywir	a 16
Dangos ymddygiad cywir ac anghywir i ni	a 16
Ein gwneud yn dda wrth ein gwaith	a 17

Wrth gyfeirio at yr "Ysgrythur GYFAN" roedd Paul yn cyfeirio at yr Hen Destament. Dywed Pedr wrthym fod llythyrau Paul ei hunan hefyd yn yr Ysgrythur (2 Pedr 3.15-16) ac i ni yr "Ysgrythur GYFAN" yw'r Hen Destament a'r Testament Newydd gyda'i gilydd. Cawsom yn y Beibl gorff cyfan o wirionedd; dyma'r hanes sy'n ein galluogi i fyw.

Mae Paul hefyd yn dweud wrth Timotheus fod **pedwar disgyblaeth** i'n galluogi ni i ddeall ac i amgyffred dysgeidiaeth yr Ysgrythur. Y rhain yw:

- Dod yn gyfarwydd â nhw a 15
- Eu dysgu a 14

Yr hyn sy'n dangos ein bod dysgu rhywbeth yw ein bod yn ei ail-adrodd wrth eraill.

- Gan ddod yn gwbl argyhoeddedig o'u gwirionedd a 14

Daw'r argyhoeddiad cynyddol hwn o'i gwirionedd trwy'n profiad o Dduw a'n hufudd-dod (gweler Joshua 1.8).

- Parhau yn y disgyblaethau hyn am oes a 14

[BLWCH 2]

ASTUDIAETH BEIBL 2

Pan ddown i wybod a byw stori'r Beibl yn y dull hwn, bydd ei effaith arnom yn fwy nag y medrwn ddychmygu. Dyma restr o rai o'r pethau y mae'r Beibl ei hunan yn ei ddweud y bydd Gair Duw yn ei wneud ar ein rhan.

Mae'r Ysgrythur yn creu:

Gwybodaeth am Grist	Ioan 5.38
Ffydd	Rhufeiniaid 10.17
Newyn calon	Mathew 4.4
Llwyddiant	Joshua 1.8
Gweddïo effeithiol	Ioan 15.7
Twf ysbrydol	1 Pedr 2.2
Ffrwythlondeb	Salm 1.3, Ioan 15.2–3
Gorchfygu temtasiwn	Salm 119.11
Rhyddid	Ioan 8.31–32
Arweiniad	Salm 119.105
Doethineb	Salm 119.98
Amynedd	Rhufeiniaid 15.4
Dygnwch	Rhufeiniaid 15.4
Gobaith	Rhufeiniaid 15.4
Awch ysbrydol	Effesiaid 6.17

Ac eto, nid yw'r un o'r rhain yn ddiben ynddo'i hunan. Fe'i rhoddwyd i ni er mwyn i ni fedru eu rhannu ag eraill. Ein gwaith yw eu pasio ymlaen!